**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
–
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament** Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

3 Chwefror 2026

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4): Y Bil Lles Plant ac Ysgolion

Ar ôl ei osod ar 16 Ionawr 2026, roeddem yn mynd i ystyried ein hadroddiad ar y Memorandwm uchod ddoe yn barod ar gyfer dadl a drefnwyd ar gyfer heddiw ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol.

Rydym yn deall bod y ddadl wedi'i gohirio tan 3 Mawrth 2026 a bod memorandwm cydsyniad atodol arall ar y gweill. O ganlyniad, diben y llythyr hwn yw ceisio eglurhad ar nifer o faterion sy'n codi o Femorandwm Rhif 4; ein bwriad gwreiddiol oedd ceisio'r eglurhad hwnnw drwy argymhellion, yr ydym yn gobeithio y byddech wedi mynd i'r afael â nhw yn y ddadl. Mae'r eglurhad yr hoffem ei gael fel a ganlyn:

1. A allwch chi gadarnhau os gwelwch yn dda a yw'r gwelliant y cyfeirir ato ym mharagraff 24 o Femorandwm Rhif 4 bellach wedi'i gyflwyno ac a fydd yn cael ei gynnwys yn y memorandwm cydsyniad atodol ychwanegol fel y disgwylir?

2. Mae Memorandwm Rhif 4 yn cyfeirio at bŵer gwneud rheoliadau mewn gwelliannau i gymal 32, sy'n ymwneud â'r amcangyfrif o amser y mae plentyn yn cael addysg gan rieni neu ddarparwyr eraill. Nid yw'n glir ym Memorandwm Rhif 4 a yw hwn yn bŵer newydd i wneud rheoliadau na pha weithdrefn graffu'r Senedd fydd yn cael ei chymhwyso i reoliadau o'r fath.

   A allwch chi gadarnhau'r weithdrefn graffu a fydd yn gymwys i wneud rheoliadau o dan gymal 32 o'r Bil os derbynnir y gwelliannau i'r cymal hwnnw yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi?

3. Mae gwelliant 244 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth ganlyniadol (cymal newydd a gynigir ar ôl cymal 64). Nodwn fod y gwelliant hwn yn mynd i'r afael ag argymhelliad 4 yn ein hadroddiad cyntaf. Fodd bynnag, nid oes sôn ym Memorandwm Rhif 4 am weithdrefn graffu'r Senedd sydd i'w chymhwyso i'r rheoliadau hynny. Mae'n ymddangos i'r Pwyllgor mai gweithdrefn annilysu'r Senedd fydd yn cael ei chymhwyso, oni bai bod y rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Yn yr achos hwnnw, gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd fydd yn cael ei chymhwyso.

   A allwch chi gadarnhau'r weithdrefn graffu a fydd yn gymwys i wneud rheoliadau o dan y cymal newydd sydd i'w fewnosod ar ôl cymal 64 drwy welliant 244, os bydd yn cael ei dderbyn yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi?

4. A fyddech cystal â chadarnhau:

   a. pa welliannau ym Memorandwm Rhif 4 sydd wedi'u trafod yn Nhŷ'r Arglwyddi a chanlyniad y drafodaeth honno;

   b. pa welliannau ym Memorandwm Rhif 4 sydd heb eu trafod a phryd rydych chi'n disgwyl i hynny ddigwydd;

   c. mewn perthynas â phwynt bwled (b), os oes gwelliannau sydd heb eu trafod, beth mae hyn yn ei olygu o ran y cydsyniad sy'n cael ei geisio ar eu cyfer drwy Femorandwm Rhif 4?

5. Mewn perthynas ag unrhyw welliannau i'r Bil sydd i fod yn destun pumed memorandwm, a allwch chi sicrhau bod y memorandwm hwnnw yn nodi a fydd gwelliannau o'r fath wedi cael eu trafod cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad ar 3 Mawrth 2026? Os na fyddant, a allwch chi egluro beth mae hyn yn ei olygu o ran ceisio cydsyniad y Senedd ar eu cyfer?

A fyddech cystal ag ymateb i'r cwestiynau hyn erbyn dydd Iau 19 Chwefror 2026?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd